# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-16-08)

### SLC170

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynnal refferenda sydd i'w cynnal o dan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Mae'r refferenda yn ymwneud â ffurf y trefniadau gweithrediaeth y dylai cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol eu mabwysiadu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhagnodi ffurfiau penodol sydd i'w defnyddio mewn refferendwm gan gynnwys ffurf y geiriad yn y datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn mewn refferendwm.

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2 ar y seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol) a Rheol Sefydlog 15.2(vii) (anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg):

Yn nhestun Saesneg rheoliad 3, gwneir cyfeiriad cywir at "Schedule 1 to these Regulations". Fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "yr Atodlen" [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)]

Yn Rhan 5 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau, ym mharagraff 24 o'r testun Cymraeg, yng nghofnod 1 o'r Tabl, yng nghwestiwn (b), mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "etholiad"; mae'r testun Saesneg yn cyfeirio'n gywir at "referendum". [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)]

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd uchod. Gan nad yw'n debygol y bydd y gwallau yr adroddwyd arnynt yn peri camddealltwriaeth, gwneir diwygiadau i'r Rheoliadau i gywiro'r drafftio diffygiol pan fydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio nesaf.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Mehefin 2008